| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU** |
| **DYDDIAD:** | **19 Medi 2018** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **GWYBODAETH LLYWODRAETHU - ADRODDIAD BLYNYDDOL YR UWCH BERCHENNOG RISG GWYBODAETH (SIRO) AR GYFER 1 EBRILL 2017-31 MAWRTH 2018** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Hysbysu Aelodau ynghylch Lefel Cydymffurfiaeth a Risg** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **SIRO / Swyddog Monitro**<br>**Est. 2586 lbxcs@ynysmon.gov.uk** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **SIRO / Swyddog Monitro**<br>**Est. 2586 lbxcs@ynysmon.gov.uk** |

## 1. Pwrpas yr adroddiad hwn

Darparu ar gyfer y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, ddadansoddiad yr Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth am y cyfnod 1 Ebrill 2017 - 31 Mawrth 2018 ac i grynhoi’r blaenoriaethau cyfredol. Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi diweddariad ar gynnydd y Cyngor gyda'i Gynllun Gweithredu GDPR; mae'r elfen hon o'r adroddiad yn ymwneud â’r cyfnod rhwng 25 Mai 2018 a 31 Gorffennaf 2018.

## 2. Rhagarweinid

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o gydymffurfiaeth y Cyngor â gofynion cyfreithiol wrth ymdrin â gwybodaeth gorfforaethol, gan gynnwys cydymffurfio â Deddf Diogelu Data 1998; Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000; Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 (Goruchwylio) a chodau ymarfer perthnasol.

Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys sicrwydd o welliant parhaus wrth reoli risgiau i wybodaeth yn ystod 2017-2018; ac mae hefyd yn nodi cynlluniau ar gyfer y dyfodol. Mae'n adrodd ar gyswllt y Cyngor â rheoleiddwyr allanol ac yn darparu gwybodaeth am ddigwyddiadau diogelwch, torri cyfrinachedd, neu "ddigwyddiadau trwch blewyn” yn ystod y cyfnod perthnasol.

Mae'r adroddiad hwn yn dilyn ffurf yr Adroddiad Blynyddol blaenorol. Er bod yr adroddiad hwn yn cynnwys diweddariad ar y mater o weithredu GDPR rhwng y cyfnod 31 Mawrth - 31 Gorffennaf 2018, bwriad y SIRO yw cadw ffocws adroddiadau yn y dyfodol ar gyfnod y flwyddyn ariannol.

## 3. Cefndir

Llywodraethu Gwybodaeth (LlG) yw'r ffordd y mae sefydliadau'n prosesu ac yn rheoli gwybodaeth. Yn ei ystyr ehangaf, mae'r term yn cwmpasu'r ystod gyfan o wybodaeth a gedwir yn gorfforaethol, gan gynnwys cofnodion ariannol, cyfrifon, polisïau, contractau ac ati. Fodd bynnag, at ddibenion yr adroddiad hwn, diffinnir LlG fel sut mae'r Cyngor yn rheoli ac yn defnyddio *gwybodaeth bersonol*; hynny yw gwybodaeth am bobl, p’un a ydynt yn ddefnyddwyr gwasanaeth neu'n weithwyr.

Mae trefniadau LlG cadarn yn rhoi sicrwydd bod y ffordd yr ydym yn ymdrin â gwybodaeth bersonol yn effeithiol, yn gyfreithlon ac yn ddiogel. Mae deddfwriaeth yn gosod cyfrifoldeb ar y Cyngor i gadw gwybodaeth bersonol yn ddiogel ac mae trefniadau LlG yn fodd i ymateb os peryglir diogelwch gwybodaeth bersonol.

## 4. Llywodraethu Gwybodaeth yn y Cyngor

Mae'r Cyngor yn casglu, cadw, prosesu, rhannu a chael gwared ar lawer iawn o wybodaeth. Yn benodol fodd bynnag, mae cadw a defnyddio gwybodaeth am bobl yn golygu bod risg gynhenid o golli neu ddifrodi’r wybodaeth honno, neu o’i datgelu’n anfwriadol. Mae gwybodaeth bersonol hefyd yn ddrud i'w chasglu, ei defnyddio a'i chadw, a phan fydd pethau'n mynd o chwith, mae'n ddrud i'w hadfer. Mae’n naturiol felly y dylid rheoli gwybodaeth mewn ffordd sydd yr un mor effeithlon â’r gweithdrefnau ar gyfer pob ased gwerthfawr arall sydd gan y Cyngor, megis pobl, prosesau busnes ac isadeiledd.

Rhaid i'r Cyngor gyflawni ei gyfrifoldebau statudol yn effeithiol a diogelu'r wybodaeth bersonol y mae'n ei chadw trwy gydol oes y wybodaeth honno; o’r adeg pan gaiff ei chreu a phan fydd yn cael ei chadw, ei defnyddio, ei harchifo a’i dileu.

Y prif yrrwr statudol ar hyn o bryd yw Deddf Diogelu Data 1998; gallai torri’r Ddeddf honno mewn modd sylweddol arwain at gosbau ariannol. Yn ogystal, os yw data am unigolion wedi'i rhannu neu ei datgelu’n anghywir, gan achosi niwed iddynt (gofid a/neu ddifrod) mae ganddynt hawl i gael iawndal.

Byddai’n ddefnyddiol esbonio ar hyn o bryd bod cryn dipyn o waith archwilio, gan gynnwys gwaith a wnaed gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) (2013-2014) wedi amlygu diffygion yn nhrefniadau diogelu data'r Cyngor. Ers 2013, mae'r Cyngor wedi buddsoddi i wella ei gydymffurfiaeth â'r Ddeddf Diogelu Data ac erbyn hyn mae ganddo'r polisïau a'r gweithdrefnau perthnasol i gynorthwyo cydymffurfiaeth â'r Ddeddf.

Ystyrir ei bod yn arfer da i gael SIRO i roi cyfeiriad ac arweinyddiaeth ar lefel uwch. Y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) a’r Swyddog Monitro sy’n ymgymryd â’r rôl honno yn y Cyngor hwn. Er mwyn mynd i'r afael â risgiau gwybodaeth, sefydlwyd **Bwrdd Llywodraethu Gwybodaeth Gorfforaethol** (Y Bwrdd) ym mis Tachwedd 2014, dan gadeiryddiaeth y SIRO. Mae'r Grŵp hwn yn fforwm priodol ar gyfer mynd i'r afael â materion LlG . Mae’n derbyn adroddiadau ar ba mor dda y mae pob Gwasanaeth yn ei

wneud mewn meysydd rheoli gwybodaeth allweddol. Mae'n asesu risg ac yn argymell ac yn monitro camau i liniaru risgiau i asedau gwybodaeth sy'n eiddo i'r Penaethiaid Gwasanaeth perthnasol. Gall y Bwrdd adrodd yn uniongyrchol i Uwch Dîm Arweinyddiaeth y Cyngor.

Mae rolau LlG eraill yn y Cyngor yn cynnwys:

- **Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth Gorfforaethol (Swyddog Diogelu Data)**
- **Swyddog Gwybodaeth a Chwynion Corfforaethol**
- **Perchenogion Asedau Gwybodaeth** – Penaethiaid Gwasanaeth sy'n '*berchen'* yr asedau ac sy'n gyfrifol am sicrhau bod eu hasedau gwybodaeth yn cefnogi'r busnes yn briodol a bod y risgiau a’r cyfleoedd cysylltiedig yn cael eu monitro ac y gweithredir arnynt (mae hyn yn rhan o’r disgrifiadau swydd diwygiedig);
- **Gweinyddwyr Asedau Gwybodaeth** – Swyddogion enwebedig sy'n sicrhau y dilynir polisïau a gweithdrefnau ac sy’n cydnabod digwyddiadau diogelwch gwirioneddol neu rai posib ac yn cynnal y cofrestrau asedau gwybodaeth (mae hyn yn rhan o’r disgrifiadau swydd diwygiedig);
- **Archwilio Mewnol**

## 5. Risgiau a Rheolaethau Gwybodaeth Sefydliadol Allweddol

Mae'n debygol mai diffyg cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu yw'r prif risg o ran gwybodaeth yn y Cyngor ac felly nid yw'r adroddiad hwn yn cyfeirio at ddigonolrwydd rheolaethau a risgiau o ran gwybodaeth nad yw’n wybodaeth bersonol.

I'r perwyl hwn, gwnaed llawer o gynnydd i ddatblygu ymwybyddiaeth ynghylch y risgiau sy’n gysylltiedig â data personol er mwyn cyflwyno mecanweithiau i reoli'r risg yn unol ag arfer orau a chyn i’r broses diogelu data gael ei had-drefnu.

Mae'r Cyngor wedi nodi risgiau gwybodaeth yn ei gofrestrau risg corfforaethol a’i gofrestrau gwasanaeth.

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod achosi niwed a gofid i unigolyn (unigolion), cosbau ariannol, camau gorfodi, cyhoeddusrwydd anffafriol a cholli hyder yn y Cyngor yn risgiau sy'n gysylltiedig ag asedau gwybodaeth.

Mae'r Cyngor hefyd yn cydnabod y risgiau canlynol i ddiogelwch ei wybodaeth:

- **esgeulustod** neu **wall dynol** ;
- **mynediad anawdurdodedig** neu **amhriodol**, gan gynnwys prosesu data personol cyfrinachol heb sail gyfreithiol;
- **colli** neu **ddwyn** gwybodaeth neu offer y cedwir gwybodaeth arnynt;
- **methiant systemau** neu offer;
- **amgylchiadau annisgwyl** megis tân, llifogydd a ffactorau amgylcheddol eraill;

- **mynediad amhriodol**, edrych ar wybodaeth at ddibenion heblaw am y rheini a bennwyd / awdurdodwyd;
- **mynediad anawdurdodedig**, gan ddefnyddio enwau defnyddwyr a chyfrineiriau pobl eraill;
- **diogelwch ffisegol gwael**;
- **rheolaethau mynediad amhriodol** sy'n caniatáu defnydd anawdurdodedig;
- **diffyg hyfforddiant** ac ymwybyddiaeth;
- ymosodiadau **hacio**;
- troseddau **'blagio'** lle ceir gwybodaeth drwy dwyll.

Yn ychwanegol at fesurau technegol a ffisegol i warchod gwybodaeth y Cyngor, mae'r prif ddulliau diogelwch technegol a sefydliadol canlynol wedi eu sefydlu i warchod rhag risgiau gwybodaeth:

- **polisïau** a gweithdrefnau **LIG** addas (fel oedd yn ofynnol dan y ddeddfwriaeth diogelu data ar y pryd);
- **Cofrestr Asedau Gwybodaeth** gyflawn;
- **hyfforddiant diogelu data** addas i'r staff ar sail dreigl;
- cyfarpar **TGCh wedi'i amgryptio**;
- **cofnodi gwersi a ddysgwyd ar lefel gwasanaeth** mewn modd priodol;
- **gweithdrefnau i gydnabod ac adrodd ar ddigwyddiadau diogelwch data**, gan gynnwys ymchwiliad a methodoleg i ddadansoddi difrifoldeb digwyddiadau;
- **casglu ac adrodd ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol yn y maes LlG i'r Bwrdd** bob chwarter;
- dynodi a darparu hyfforddiant ar **swyddogaethau LlG allweddol**;
- **caffael gwasanaethau'r** Cyngor mewn ffordd sy'n cydymffurfio â rheolau diogelu data;
- **Egwyddorion Preifatrwydd drwy Ddyluniad** yn cael eu hymgorffori yn y methodolegau rheoli prosiect;
- cymryd rhan yng **Nghytundeb Cymru Gyfan ar Rannu Gwybodaeth Bersonol** (WASPI) a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru er mwyn sicrhau y rhennir data personol yn gyfreithlon ac yn gymesur.

Mae / roedd rhai o'r materion pwysicaf a mwyaf cyfredol yn cynnwys:

### 5.1 Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data

### Rhan A: Cyfnod yr adroddiad (hyd at 31 Mawrth 2018)

Yn ystod y cyfnod a gwmpesir gan adroddiad y SIRO, gwelwyd datblygu cynlluniau'r Cyngor i weithredu'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR). Er y byddai'r GDPR a Deddf Diogelu Data 2018 yn dod i rym ar ôl cyfnod yr adroddiad, daeth y mater hwn yn brif risg gwybodaeth i'r Cyngor, felly mae'n briodol darparu gwybodaeth am y gwaith

a wnaed hyd at 25 Mai 2018 a darparu diweddariad ar wahân am y cyfnod rhwng 25 Mai a 31 Gorffennaf 2018.

Yn ystod cyfnod adroddiad y SIRO, datblygodd Gwasanaeth Cyfreithiol y Cyngor ei ymagwedd o ran y modd y byddai'r ddeddfwriaeth yn edrych yn ymarferol trwy ddylunio rhaglen waith addas ar ffurf Cynllun Corfforaethol. Datblygwyd y Cynllun o ddadansoddiad o'r GDPR, cyngor a gyhoeddwyd gan Fwrdd Diogelu Data Ewrop a gwahanol ddrafftiau o Fesur Diogelu Data'r DU. Roedd diffyg arweiniad ffurfiol gan yr ICO, Rheoleiddiwr diogelu data'r DU, yn siomedig. Nodwyd yn y Cynllun Corfforaethol 75 o bwyntiau gweithredu mawr a oedd yn golygu cryn dipyn o waith.

Cafodd y 75 pwynt gweithredu wedyn eu crynhoi'n Gynllun Pum Cam, a fwriadwyd i gynorthwyo Gwasanaethau'r Cyngor i weithio tuag at gydymffurfiaeth â'r ddeddfwriaeth newydd. Cyflwynwyd cam cyntaf y Cynllun ym mis Tachwedd 2017. Cyflwynwyd pum cam y cynllun yn gynyddraddol er mwyn i'r Gwasanaethau gael y cyfle i reoli'r camau gweithredu yn gynyddraddol.Y camau oedd:

**Cam 1 Dweud wrth Bobl sut rydym yn defnyddio eu data**
**Cam 2 Gwybod beth rydym yn ei wneud a pham**
**Cam 3 Cadw tystiolaeth gywir am y cyfnod y mae ei hangen**
**Cam 4 Bod ein holl bolisïau a phrosesau yn cydymffurfio**
**Cam 5 Hyfforddiant**

Nid yw penawdau'r camau yn cyfleu cymhlethdod y tasgau sydd eu hangen i weithredu'r Cynllun. Roedd y ddeddfwriaeth newydd yn gofyn am ddatblygu prosesau, yn ogystal â pholisïau, sy'n effeithio ar y ffordd y mae'r Cyngor yn gweithredu a'r modd y mae'n rhyngweithio â'i gwsmeriaid ac eraill. Darparodd y Pum Cam sylfaen gadarn ar gyfer gweithredu'r ddeddfwriaeth. Cafodd yr holl waith a wnaed gan bob Gwasanaeth ei gadw ar yriant penodol ar wahân ar Rwydwaith y Cyngor.

Mae'r GDPR yn cyflwyno heriau mwy llym a rhagnodol o ran cydymffurfiaeth, wedi'u hategu gan amgylchedd rheoleiddiol mwy cosbedigaethol gyda dirwyon o hyd at swm sy'n cyfateb i € 20 miliwn ewro yn y DU am dorri'r rheoliadau mewn modd difrifol, ymgyfreithiad posibl a niwed difrifol i enw da.

Fodd bynnag, yn hytrach na lefel uwch o ddirwyon posib, y risg wirioneddol i'r Cyngor yw y bydd sgôp y gweithgareddau y gellir dirwyo'r Cyngor ar eu cyfer yn ehangu. Gellir disgrifio hyn fel symudiad oddi wrth drefn ble mae'r ICO yn cymryd camau gorfodaeth am dorri rheolau i drefn ble cymerir camau gorfodaeth am beidio â chydymffurfio â hawliau gwrthrychau data. Yn benodol, gan fod y Cyngor nid yn unig yn gyfrifol am gydymffurfio, rhaid iddo hefyd allu dangos cydymffurfiaeth â'r egwyddorion diogelu data. Felly, bwriad y Cynllun Corfforaethol, wedi'i grynhoi mewn pum cam, yw sefydlu diwylliant o fonitro ac atebolrwydd o ran prosesu data personol y Cyngor.

**Rhan B: Gweithredu GDPR ers 31 Mawrth 2018 (hyd at 31 Gorffennaf 2018).**

Cafodd paratoadau'r Cyngor ar gyfer y GDPR eu harchwilio gan Archwilwyr Mewnol y Cyngor yn ystod Ebrill 2018 a chyhoeddwyd adroddiad terfynol ar 16 Mai 2018. Daeth yr adroddiad i'r casgliad bod sicrwydd cyfyngedig ynglŷn â pharatoadau'r Cyngor ar gyfer GDPR. Roedd gwaith i weithredu pum cam y Cynllun yn parhau i fynd rhagddo ar adeg yr archwiliad.

Nid yw'r adroddiad Archwilio Mewnol ar 16 Mai 2018 yn cyfeirio at rwymedigaethau'r Cyngor o ran Deddf Diogelu Data y DU 2018, ond mae'r SIRO am adrodd ar ei gweithrediad oherwydd ei bod yn ddeddfwriaeth allweddol. Mae cydymffurfiaeth y Cyngor â Deddf Diogelu Data 2018 wedi'i nodi isod.

Yn ystod y cyfnod yn dilyn cyhoeddi adroddiad yr Archwiliwr Mewnol, cwblhawyd Cynllun y Cyngor fel a ganlyn.

**Cam 1.**

Gelwir y cam hwn yn ***Dweud wrth Bobl sut rydym yn defnyddio eu data*** .Y bwriad oedd gweithredu rhwymedigaethau'r Cyngor o ran *cyfreithlondeb, tegwch a thryloywder.* Yr allbynnau allweddol oedd datblygu hysbysiadau preifatrwydd addas a oedd yn bodloni gofynion y ddeddfwriaeth i fod yn benodol ac yn fanwl ond eto'n ddealladwy i'r cynulleidfaoedd y bwriadwyd nhw ar eu cyfer.

Cyhoeddir yr hysbysiadau preifatrwydd a gynhyrchir gan y Gwasanaethau ar wefan y Cyngor a, lle bo angen, ar ffurflenni papur. Cafodd yr hysbysiadau preifatrwydd eu hasesu'n unol â phrosesau sicrwydd ansawdd corfforaethol yn ystod Gorffennaf 2018. Roedd yr adolygiad hefyd yn edrych ar y dystiolaeth a oedd wedi'i chynnwys yn y cofnod a gwblhawyd o weithgareddau prosesu data personol a grëwyd fel rhan o **Gam 2** i sefydlu a oedd y dibenion angenrheidiol, y seiliau cyfreithlon ar gyfer prosesu a chyfeiriadau at hawliau gwrthrych y data priodol yn cael eu cynnwys ar y rhybuddion preifatrwydd.

Mae'r Swyddog Diogelu Data yn fodlon bod holl Wasanaethau'r Cyngor bellach wedi bodloni'r gofyniad hwn o'r Cynllun. Fel rhan o'i waith parhaus, bydd y Cyngor yn creu archif ddigidol o hysbysiadau preifatrwydd fel cofnod tystiolaethol o'i gydymffurfiaeth dros amser.

**Cam 2.**

Gelwir y cam hwn ***Gwybod beth yr ydym yn ei wneud a pham*** . Roedd y cam hwn yn cynnwys creu Cofnod Erthygl 30 o Weithgareddau Prosesu (ROPA). Roedd y cam hwn

yn gweithredu egwyddor *atebolrwydd* y GDPR. Yn ogystal, roedd yn hwyluso cydymffurfiaeth ag egwyddorion y *cyfyngiad pwrpas* a'r *cyfyngiad storio* yn y GDPR. Mae ROPA y Cyngor yn elfen hanfodol o'i gydymffurfiaeth ag egwyddor atebolrwydd y GDPR. Mae'r ROPA yn manylu ar holl weithgareddau prosesu data personol y Cyngor, gan gynnwys y sail gyfreithlon ar gyfer prosesu.

Ni fwriedir i'r ROPA fod yn ddogfen statig. Felly, gofynnir am sicrwydd gan y Gwasanaethau bod eu helfennau nhw o'r ROPA yn adlewyrchu eu gweithgareddau prosesu data personol cyfredol. Fel rhan o'r gwaith sy'n mynd rhagddo, bydd ROPA yn cael ei adolygu i archwilio lle mae'r Cyngor yn gwneud defnydd o ddibenion cyfreithlon fel sail gyfreithlon dros brosesu. Yn y pen draw, bwriedir hefyd gynnwys linciau o'r ROPA i brotocolau rhannu gwybodaeth unigol.

Cafodd sylwedd ROPA y Cyngor ei asesu am sicrwydd ansawdd corfforaethol ym mis Gorffennaf 2018. Casgliadau'r adolygiad oedd bod Gwasanaethau'r Cyngor bellach wedi gwneud cyfraniad digonol at ROPA'r Cyngor. Mae'r holl Wasanaethau bellach wedi bodloni'r gofyniad hwn o'r Cynllun.

**Cam 3**

Gelwir y cam hwn yn ***Cadw tystiolaeth gywir am y cyfnod y mae ei hangen***. Roedd y cam hwn yn cynnwys datblygu amserlen gorfforaethol ar gyfer cadw data. Mae nodi cyfnodau addas ar gyfer cadw data ac archwilio arferion presennol yn elfen allweddol o egwyddor cyfyngiad storio GDPR. Roedd allbynnau dau gam cyntaf y Cynllun yn sylfaen i'r cam hwn. Hefyd, roedd y cyfnodau cadw a nodwyd yn y cam hwn o'r cynllun wedi helpu i sicrhau ansawdd y ddau gam cyntaf.

Mae holl Wasanaethau'r Cyngor wedi mabwysiadu cyfnodau cadw y cytunwyd arnynt ar gyfer y data personol a broseswyd fel rhan o'u gweithgareddau. Gan fod holl wasanaethau'r Cyngor bellach wedi cydymffurfio â'r cam hwn, gellir rhoddi sicrwydd bod y Cyngor wedi gweithredu'r elfen hon o'r Cynllun. Fodd bynnag, bydd sicrhau cydymffurfiad gweithredol parhaus yn rhan o waith y byddir yn ei wneud yn y dyfodol.

**Cam 4**

Gelwir y cam hwn yn ***bod ein holl bolisïau a phrosesau yn cydymffurfio***.Roedd y cam hwn yn gofyn am ddatblygu polisïau gorfodol a phrosesau gorfodol ar gyfer diogelu data. Er mwyn gweithredu'r cam hwn yn llwyddiannus, cydnabuwyd y byddai angen canllawiau ar y polisïau a'r prosesau gorfodol er mwyn sefydlu'r prosesau yn gadarn yn

niwylliant gweithio’r Cyngor. Dan Ddeddf GDPR a Diogelu Data 2018, roedd gofyniad i gynnal adolygiad o holl bolisïau Llywodraethu Gwybodaeth presennol y Cyngor.

**Polisïau a Chanllawiau**

Roedd yn ofynnol i'r Cyngor ddatblygu a mabwysiadu polisïau newydd i ymateb i gwmpas ehangach y GDPR, yn enwedig ym maes hawliau gwrthrychau data. Yn ogystal, mae angen darparu adnoddau ac arweiniad ychwanegol i gefnogi polisïau diogelu data allweddol. Cyhoeddir polisïau ar y *Porth Polisi* ac mae adnoddau ategol ar gael ar Fewnrwyd y Cyngor.

Mae Deddf Diogelu Data 2018 hefyd yn ei gwneud yn orfodol i gael datganiadau polisi penodol sy'n ymwneud â swyddogaethau'r Cyngor nad ydynt yn wedi cael eu cynnwys yn y GDPR. Er enghraifft, dan Ddeddf 2018, rhaid cael Deddf Prosesu Polisi Categorïau Arbennig, ac mae'n galluogi'r Cyngor i brosesu categorïau arbennig o ddata personol yn gyfreithlon megis gwybodaeth am gofnodion troseddol a hefyd i brosesu data personol fel rhan o'i swyddogaethau mewn perthynas â gorfodi'r gyfraith.

Mae'r polisïau canlynol wedi cael eu datblygu a'u cyhoeddi: -

**Polisi Diogelu Data**

**Hawl Gwrthrych i Weld Data - nodiadau cyfarwyddyd i staff**

**Hysbysiad Preifatrwydd Corfforaethol**

**Polisi Preifatrwydd Gwefan**

**Canllawiau Cytundeb Prosesu Data**

**Polisi Asesu Effaith Diogelu Data**

**Polisi Digwyddiadau Diogelwch Data Personol**

**Canllawiau Ymchwilio i Ddigwyddiadau’n ymwneud â Diogelwch Data Personol**

**Ffurflen Adrodd ar Ddigwyddiadau’n ymwneud â Diogelwch Data Personol**

**Polisi Prosesu Data (penodi proseswyr)**

**Canllawiau i Staff ar Amserlenni Cadw Data**

**Polisi Mynediad Gwrthrych Data**

**Prosesau a gweithdrefnau**

Yn ogystal â pholisïau sy'n nodi'r hyn y dylai sefydliadau ei wneud, mae'r ddeddfwriaeth hefyd yn nodi bod yn rhaid i sefydliadau fod â phrosesau pwysig penodol ar waith. Yn unol â phwyslais y ddeddfwriaeth ar dystiolaeth o atebolrwydd, mae'n ofynnol i'r Cyngor gadw cofnod o'r prosesau gorfodol. Mae'r ddeddfwriaeth yn sefydlu'r gofyniad am asesiadau effaith diogelu data; adrodd ar dorri rheolau data; contractau sy'n cydymffurfio â rheolau diogelu data pan fydd y Cyngor yn penodi proseswyr i ymgymryd â gweithgareddau prosesu ar ei ran. Mae'r Cofnod o Weithgaredd Prosesu, a drafodir uchod, yn ofyniad gorfodol.

Mae'r Cyngor wedi gweithredu'r holl ofynion gorfodol a lle bo angen, fe gefnogi y rhain gan ganllawiau sy’n cynnwys:

**Asesiad DPIA Cychwynnol;**

**Asesiad Effaith Diogelu Data (DPIA) a chanllawiau ar gyfer ei gwblhau;**

**Templed Cytundeb Prosesu Data a chanllawiau ar gyfer ei gwblhau;**

**Proses ymchwilio i achosion o Dorri Rheolau Data a thempledi ar gyfer llythyrau**

**Cam 5**

**Hyfforddiant**

Dylid nodi bod y Cyngor wedi gwneud hyfforddiant diogelu data ar gyfer ei staff yn ofyniad gorfodol ers 2013. Fel y trafodwyd uchod, mae'r newidiadau i ddeddfwriaeth diogelu data yn esblygiad yn hytrach na’n chwyldro o ran ymagwedd. Mae’r hyfforddiant sy’n benodol i GDPR yn adeiladu ar sylfaen wybodaeth sydd eisoes yn bodoli.

Roedd cam hyfforddi’r Cynllun yn mynd i'r afael ag anghenion hyfforddi penodol y Cyngor a'i Aelodau Etholedig. Mae hyfforddiant yn rhoi'r sicrwydd i'r Cyngor fod ei staff yn deall gofynion diogleu data fel y mae’n effeithio arnynt hwy a defnyddwyr gwasanaeth y Cyngor. Mae hyn yn bwysig, gan fod lefel a digonolrwydd yr hyfforddiant yn ddiogelwch a fydd yn atal digwyddiadau diogelwch data rhag codi ac yn linariaid os bydd angen rhoi gwybod i'r Comisiynydd Gwybodaeth am ddigwyddiad.

Mae tystiolaeth o hyfforddiant, ar y cyd â thystiolaeth o dderbyn polisi, yn rhoi sicrwydd i’r Cyngor y mae modd ei fesur.

Mae ymagwedd y Cyngor tuag at hyfforddiant diogelu data yn un sy’n cael ei fabwysiadu’n aml gan sefydliadau canolig a mawr; sef defnyddio e-ddysgu a, lle mae angen hyfforddiant mwy datblygedig, lefel ychwanegol o hyfforddiant yn yr ystafell ddosbarth. Cyflwynwyd modiwl e-ddysgu sy'n addas i'r holl staff ym mis Mai 2018. Bydd hyn yn cael ei ategu gan hyfforddiant yn yr ystafell ddosbarth ar gyfer y rheini a nodwyd gan eu Penaethiaid Gwasanaeth fel rhai a fydd angen hyfforddiant lefel uwch.

Dangosir isod y nifer o staff yng ngwasanaethau’r Cyngor a oedd wedi cwblhau’r modiwl modiwl e-ddysgu hyd at 31 Gorffennaf 2018 isod.

| | **Wedi'i gwblhau** | **Nifer y staff** | **Canran y staff** |
|---|---|---|---|
| Oedolion | 68 | 475 | 14.32% |
| Plant | 89 | 112 | 79.46% |
| Trawsnewid Corfforaethol | 72 | 81 | 88.89% |
| Busnes y Cyngor | 32 | 32 | 100% |
| Tai | 117 | 131 | 89.31% |
| Dysgu | 71 | 168 | 42.58% |
| Economaidd | 150 | 315 | 47.62% |
| Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff | 75 | 329 | 22.80% |
| Adnoddau | 73 | 94 | 77.65% |
| | | | |
| **Cyfanswm ar 31 Gorffennaf 2018** | **747** | **1737** | **43%** |

**Datblygu hyfforddiant ar lefel uwch**

Cydnabyddir bod rhai rolau o fewn gwasanaethau penodol yn golygu bod mwy o debygrwydd y bydd cyfraith diogelu data’n cael ei thorri. Mae hyn oherwydd bod natur eu dyletswyddau'n golygu bod data personol sensitif yn cael ei brosesu, yn aml ar raddfa fawr. Mae'r cysyniad o risg sy’n gysylltiedig â diogelu data wedi cael ei ystyried yn y gorffennol fel un sy'n gymesur â lefel swyddi o fewn y sefydliad; po uchaf yw’r swyddog, y mwyaf yw'r risg diogelu data sy'n gysylltiedig â'r rôl.

Mae'r dull a fabwysiadwyd gan y Cyngor bellach yn adlewyrchu symudiad tuag at gydnabyddiaeth fwy realistig bod risg yn cyd-fynd â rhai rolau oherwydd natur y dyletswyddau ac nid oherwydd lefel y swydd. Mae'r model hwn yn cydnabod bod staff gweinyddol o fewn rhai gwasanaethau yn peri mwy o risg o ran diogelu data na Phrif Weithredwr y Cyngor; sy'n adlewyrchu profiad y SIRO o ran nifer y digwyddiadau diogelu data y cafwyd gwybod amdanynt. Felly, mae Gwasanaethau'r Cyngor wedi enwebu staff allweddol ar gyfer hyfforddiant pellach. Ar 31 Gorffennaf 2018, enwebwyd 118 o staff ar gyfer hyfforddiant ychwanegol. Datblygwyd brîff hyfforddi ac mae AD yn defnyddio hyfforddwyr addas.

Yn anffodus, ni ddatblygwyd hyfforddiant dwyieithog wedi'i deilwra ar gyfer Aelodau etholedig yng Nghymru a datblygwyd hyfforddiant uniaith Saesneg yn unig yn Lloegr. O'r herwydd, ni chafodd Aelodau etholedig hyfforddiant yn ystod y cyfnod. Fodd bynnag, bwriedir darparu mynediad i'r modiwl e-ddysgu ar GDPR ar gyfer Aelodau ym mis Medi 2018, (sef yr hyfforddiant sydd eisoes ar gael i staff)

**Deryn Polisi GDPR**

Fel y crybwyllwyd eisoes, mae trefn ar gyfer derbyn polisïau yn warchodaeth i'rr Cyngor oherwydd mae'n darparu tystiolaeth bod y staff wedi darllen a deall y polisi. Gwnaed Polisi Diogelu Data y Cyngor yn un yr oedd yn rhaid i staff ei dderbyn rhwng 4/6/2018 a 2/7/2018 ac roedd y gyfradd dderbyn yn 83%. Mae'r polisi Diogelu Data yn parhau i fod ar agor i bobl ei dderbyn.

**5.2 Cofrestr Asedau Gwybodaeth**

Cofrestr Asedau Gwybodaeth yw'r mecanwaith allweddol ar gyfer deall pa wybodaeth a gedwir gan y sefydliad a'r risgiau cysylltiedig. Mae'r gofrestr yn caniatáu mapio cynnwys gwybodaeth a systemau gwybodaeth wrth iddynt ryngweithio â newidiadau i ofynion busnes a'r amgylchedd technegol. Mae Bwrdd Llywodraethu Gwybodaeth Gorfforaethol y Cyngor wedi datblygu'r fersiwn gyntaf o Gofrestr Asedau Gwybodaeth y Cyngor yn unol ag arfer orau. Roedd y Gofrestr Asedau Gwybodaeth yn cynnwys manylion am asedau gwybodaeth y Cyngor mewn perthynas ag ystod eang o systemau.

Roedd datblygu Cofrestr Asedau Gwybodaeth y Cyngor, nodi'r prif risgiau sy'n gysylltiedig â phob un o systemau a asedau busnes busnes y Cyngor, wedi'i nodi fel rhywbeth yr oedd angen ei ddatblygu ymehllach. Fodd bynnag, bu'n rhaid dargyfeirio adnoddau i ddatblygu Cofnod o Weithgareddau Prosesu (ROPA) dan Erthygl 30 o'r GDPR ar gyfer y Cyngor, sy'n adeiladu ar y Gofrestr Asedau Gwybodaeth, ond sy'n canolbwyntio ar brosesu data am unigolion. (Mae'r Gofrestr Asedau Gwybodaeth yn ehangach). Mae'r ROPA yn ofyniad statudol, felly y bwriad yw rhoi blaenoriaeth i gynnal

a datblygu Erthygl 30 ROPA. Felly, mae'r SIRO yn cynnig na ddylai gyflwyno adroddiad ar y Gofrestr Asedau Gwybodaeth mewn adroddiadau yn y dyfodol ond y dylai, yn hytrach, ddarparu diweddariadau ar ddatblygiad y ROPA.

### 5.3 Polisïau a Gweithdrefnau Llywodraethu Gwybodaeth Allweddol

Mae polisïau yn allweddol bwysig o ran diogelwch gwybodaeth ac yn nhrefniadau LlG y Cyngor. Mae gan Benaethiaid Gwasanaeth y Cyngor, yn eu rolau fel Perchenogion Asedau Gwybodaeth, rôl benodol i ymgorffori a chynnal polisïau o ran defnyddio a thrin gwybodaeth a fydd yn gwella ansawdd a chysondeb gweithdrefnau rheoli gwybodaeth ar draws y Cyngor.

Mae polisïau LlG allweddol ar gael ar Borth Polisi'r Cyngor a chânt eu cefnogi gydag adnoddau sydd ar gael ar Fewnrwyd y Cyngor. Mae'r polisïau yn cael eu hadolygu a'u diweddaru gan y Bwrdd Llywodraethu Gwybodaeth Gorfforaethol. Amserlennir y gwaith a bydd yn destun rhaglen adolygu barhaus. Mae'r adran hon ac adran 5.4 isod yn ymwneud â'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2017 a 31 Mawrth 2018. Am fwy o wybodaeth am y polisïau a ddatblygwyd fel rhan o Weithredu'r GDPR, gweler 5.1 uchod.

### 5.4 Derbyn Polisi ('Cliciwch i Derbyn')

Mae cyswllt clir rhwng derbyn polisi (h.y. system i dystiolaethu hyfforddiant, dealltwriaeth a gweithredu) ac arfer dda yn y maes diogelu data. Amlygwyd yr elfen hon gan y Comisiynydd Gwybodaeth yn adroddiad archwilio 2013, ac eto yn 2015, pan ofynnwyd i'r Cyngor sicrhau bod ganddo weithdrefnau ar gyfer casglu, coladu a dangos bod ei staff wedi derbyn polisïau allweddol. Roedd hefyd yn argymhelliad gan Swyddfa Archwilio Cymru yn ei Hadroddiad Gwella Blynyddol ar gyfer 2014-15 dyddiedig 1 Rhagfyr 2015.

Mae'r Cyngor wedi bod yn gweithredu system rheoli polisïau, sef y Porth Polisi (llyfrgell o bolisïau) ers mis Tachwedd 2016. Cyflwynwyd y swyddogaeth derbyn polisi ym mis Ebrill 2017 (y tu allan i gyfnod yr adroddiad hwn). Bydd y Porth Polisi yn rhoi sicrwydd i'r SIRO bod staff yn darllen, yn deall ac yn derbyn polisïau LlG allweddol yn ffurfiol. Mae lefel ymgysylltiad staff y Cyngor gyda'r Porth Polisi yn brawf o'i lwyddiant. Ymhellach, mae argaeledd y Porth Polisi wedi gwneud y dasg o fonitro cydymffurfiaeth gyda rheolau diogelu data ar ôl 28 Mai 2016 yn sylweddol haws.

Yn ystod y cyfnod a gwmpesir gan adroddiad y SIRO, roedd y Polisi Desg Glir, Polisi Rheoli Cofnodion, a Pholisi Categoreiddio Data yn bolisïau yr oedd yn rhaid i staff y Cyngor eu derbyn. Mae hyn yn sicrhau bod gweithwyr yn glir ynghylch yr hyn y mae'r Cyngor yn ei ddisgwyl ohonynt o ran diogelwch gwybodaeth.

Dangosir isod y cyfraddau derbyn ar gyfer y polisïau gorfodol:

| | |
|---|---|
| **Polisi Desg Glir** | Derbyniwyd gan 95% o ddefnyddwyr |
| **Polisi Rheoli Cofnodion** | Derbyniwyd gan 95% o ddefnyddwyr |
| **Polisi Categorïau Data** | Derbyniwyd gan 95% o ddefnyddwyr |

Mae'r Porth Polisi yn dibynnu ar Gyfeiriadur Gweithredol *('Active Directory')* y Cyngor, ac erbyn hyn mae'n cynnwys tua 1000 o ddefnyddwyr actif, yn dilyn cynnwys y Gwasanaeth Dysgu.

Mae dibyniaeth y Porth ar y Cyfeiriadur Gweithredol wedi cael ei gydnabod fel cyfaddawd o'r cychwyn cyntaf ac mae'r Pwyllgor hwn wedi codi pryderon o'r blaen nad yw staff nad ydynt yn ddefnyddwyr y Cyfeiriadur yn cael eu cynnwys yn y broses. Amcangyfrifir bod oddeutu 686 o staff nad oes ganddynt gyfrifon Cyfeiriadur Gweithredol, gan gynnwys:

| | | |
|---|---|---|
| Gwasanaethau Oedolion | Gofalwyr Cartref; Ail-alluogi; Cartrefi Gofal; Gwasanaethau Dydd; Canolfan Byron, Byw â Chymorth | 350 |
| Gwasanaethau Plant | Gweithwyr Cymorth Arbenigol | 21 |
| Dysgu | Llyfrgelloedd, Gweithwyr Ieuenctid, Staff Wrth Gefn | 85 |
| Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | Glanhawyr (gan gynnwys ysgolion), Cludiant Cymunedol Môn, Canolfannau Ailgylchu | 190 |
| Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Glanhawyr, staff caffi, staff hyfforddi | 40 |

Mae defnyddwyr y Cyfeiriadur Gweithredol â chyfrifon e-bost sy'n defnyddio Trwyddedau Mynediad Cleient Microsoft sy'n ddrud.  Yn ogystal, byddai darparu unrhyw offer TG i hwyluso mynediad, fel gliniaduron, hefyd â goblygiadau o ran cost. Er y byddai darparu cyfrifon Cyfeiriadur i'r holl staff yn dechnegol bosibl, byddai'n debygol o fod yn rhy gostus ac o'r herwydd, nid yw'n flaenoriaeth ar hyn o bryd.

### 5.5 Asesiadau o'r Effaith ar Breifatrwydd

Yn ystod cyfnod adroddiad y SIRO, roedd Asesiadau o'r Effaith ar Breifatrwydd (AEB) yn offeryn i helpu sefydliadau i nodi'r ffordd fwyaf effeithiol o gydymffurfio â'u rhwymedigaethau diogelu data. Mae AEB effeithiol yn caniatáu i sefydliadau fynd i'r afael â phroblemau yn gynnar, gan leihau'r costau cysylltiedig a'r difrod i enw da a allai

ddigwydd fel arall. Nid oedd cynnal AEB yn ofyniad cyfreithiol dan Ddeddf Diogelu Data 1998 ond roedd yn cynrychioli arfer dda ar argymhelliad yr ICO.

Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn, **ni** chwblhawyd **unrhyw** AEB. Fodd bynnag, dan y drefn ddiogelu data newydd, mae Asesiadau o’r Effaith ar Ddiogelu Data yn orfodol. Mae trefniadau'r Cyngor ar gyfer cynnal yr asesiadau hyn wedi eu trafod uchod. Mae'n ofyniad statudol i Wasanaethau'r Cyngor geisio cyngor y Swyddog Diogelu Data am yr amgylchiadau lle mae angen Asesiad o’r Effaith ar Ddiogelu Data.

### 5.6 Hyfforddiant (1 Ebrill 2017 - 25 Mai 2018)

Gan fod yr adroddiad hwn yn cynnwys y cyfnod pan gyflwynwyd y modiwl e-ddysgu penodol ar gyfer GDPR a ddisodlodd yr hyfforddiant LlG corfforaethol, gweler yr adroddiad ar weithredu Cam 5 y Cynllun Corfforaethol.

### 5.7 Llif Data Personol a Rhannu Gwybodaeth

Yn ystod y cyfnod y mae wnelo’r adroddiad hwn ag ef, roedd angen i Berchenogion Asedau Gwybodaeth (PAG), yn ogystal â chynnal Cofrestrau Asedau Gwybodaeth, hefyd ddeall a chofnodi data a oedd yn llifo i mewn ac allan o'r sefydliad. Gwneir hyn i raddau helaeth trwy gyfrwng protocolau rhannu gwybodaeth yng Nghytundeb Cymru Gyfan ar Rannu Gwybodaeth Bersonol (WASPI), sy'n arfer da ac yn fodd o ddarganfod a yw gwybodaeth yn cael ei throsglwyddo y tu allan i'r DU a'r AEE, yn groes i Ddeddf Diogelu Data 1998. Mae protocolau rhannu gwybodaeth WASPI yn nodi risgiau i ddiogelwch gwybodaeth a’r camau lliniaru sydd ar waith. Cyhoeddir Protocolau Rhannu Gwybodaeth ar Wefan Cytundeb Cymru Gyfan ar Rannu Gwybodaeth Bersonol.

Mae'r Cyngor hefyd yn cymryd rhan yn y broses Sicrhau Ansawdd ar gyfer Protocolau Rhannu Gwybodaeth WASPI trwy Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth Gogledd Cymru.

Gyda dyfodiad y gyfundrefn newydd ar gyfer diogelu data, mae pwysigrwydd y protocolau rhannu gwybodaeth fel gwarchodaeth yn cynyddu. Mae'n amserol, felly, bod fframwaith WASPI wedi'i ddiwygio'n llwyr mewn ymateb i'r ddeddfwriaeth newydd. Un fantais o'r dogfennau a'r templedi diwygiedig yw eu bod yn llai cymhleth ac yn fwy hyblyg. Rhagwelir y gall y Cyngor nawr wneud mwy o ddefnydd o fframwaith WASPI er mwyn dangos y modd y mae’n rhannu gwybodaeth. Bydd rhannu gwybodaeth yn cael ei gofnodi ar ROPA y Cyngor a'i adrodd i'r Pwyllgor mewn adroddiadau yn y dyfodol.

### 5.8 Digwyddiadau Diogelwch Data

Yn ystod y cyfnod a gwmpesir gan adroddiad y SIRO, roedd trefniadau LIG y Cyngor yn cydymffurfio â Chanllawiau'r Comisiynydd Gwybodaeth ar adrodd am ddigwyddiadau diogelwch data a oedd yn torri dyletswydd statudol y Cyngor i ddiogelu data personol. O dan Ddeddf 1998, nid oedd unrhyw ddyletswydd gyfreithiol i adrodd i'r Comisiynydd

Gwybodaeth am achosion o dorri'r rheolau. Bydd gwybodaeth yn ymwneud â'r cyfnod ar ôl 31 Mawrth yn cael ei nodi mewn adroddiad yn y dyfodol.

Felly, mae'r Cyngor wedi sefydlu Methodoleg ar gyfer Digwyddiadau Diogelwch Data fel y gellir nodi, ymchiwlio i ac adrodd am ddigwyddiadau diogelwch data. Mae log corfforaethol yn cael ei gadw ac mae cofnod yn cael ei gadw yn y gwasanaethau hefyd. Yn ogystal, mae'r Cyngor wedi datblygu offeryn i asesu difrifoldeb digwyddiadau diogelwch data. Mae'r offeryn yn galluogi'r SIRO i asesu, mewn 3 cham, ddifrifoldeb digwyddiad diogelwch data trwy briodoli pwysau i ffactorau penodol sy'n ymwneud â graddfa a sensitifrwydd digwyddiadau. Sgorir digwyddiadau fel Lefel 0, Lefel 1, neu Lefel 2.

- Mae **Lefel 0 yn** cael eu categoreiddio fel digwyddiadau trwch blewyn.
- Mae **lefel 1** yn cadarnhau y cafwyd digwyddiad diogelu data ond **nid oes** angen rhoi gwybod i ICO a rheoleiddwyr eraill.
- Mae **lefel 2** yn ddigwyddiad diogelwch data a gadarnhawyd ac **mae'n rhaid** rhoi gwybod amdano i'r ICO a rheoleiddwyr eraill (fel sy'n briodol).

Yn ystod cyfnod yr adroddiad nid oedd yn glir a oedd angen gwneud gwaith diwygio mawr o fethodoleg y Cyngor er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r GDPR. Fodd bynnag, ar ôl 25 Mai 2018, datblygwyd polisi a phroses newydd er mwyn cydymffurfio â'r gofyniad i adrodd am dorri amodau diogelu data i'r ICO. Nid yw'r fethodoleg sgorio bellach yn cael ei defnyddio oherwydd bod y ffactor allweddol bellach yn risg i hawliau a rhyddid gwrthrychau data.

Nodir nifer yr achosion a gofnodwyd gan y Cyngor yn **Atodiad A.** Mae'n amlwg bod y gyfran o ddigwyddiadau Lefel 0 - Lefel 1 wedi gostwng (o 33 yn yr adroddiad blaenorol). Roedd cyfran sylweddol o'r digwyddiadau yn ymwneud â gwybodaeth a anfonwyd trwy e-bost.

## 5.9 Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) LIG

Yn ystod cyfnod yr adroddiad, roedd y Cyngor yn monitro DPA penodol ar gyfer LIG; rhai yn fisol, ac eraill ar sail chwarterol. Mae hefyd yn cyhoeddi ei ddata hawl i wybodaeth ar ei wefan bob chwarter.

| ***Cyfeirnod yDangosydd*** | ***Dangosydd*** | ***Mesur + Canlyniadau ar gyfer 2017/2018*** | ***Disgrifiad*** |
|---|---|---|---|
| *C1* | Cydymffurfio â Chais am Fynediad gan Wrthrych | Nifer y ceisiadau a dderbyniwyd = **ymatebwyd i 22 o geisiadau**<br><br>Nifer yr | Mae gan bobl yr hawl statudol i gael mynediad i'w data personol eu hunain a gedwir gan sefydliad o fewn cyfnod penodol.<br>Mae'n hollbwysig bod yr holl wasanaethau yn nodi'r ceisiadau hyn yn gywir fel y |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | ymatebion a anfonwyd ymhen 40 diwrnod fel% = **91% (20 allan o 22)** | gallant gael eu cofnodi. |
| *C2* | Digwyddiadau diogelwch data | Nifer o ddigwyddiadau diogelwch data (gan gynnwys digwyddiadau ond y dim) = **20**<br><br>Adroddwyd am **19 o** ddiffygion ac **1** mater i'r ICO | Mae Egwyddor 7 y DPA yn datgan bod yn rhaid i sefydliadau fod â "Mesurau technegol a threfniadol priodol yn erbyn prosesu data personol heb awdurdod neu yn anghyfreithlon ac yn erbyn colli neu ddinistrio data personol yn ddamweiniol."<br>Yn ymarferol, mae hyn yn golygu bod yn rhaid i ni gael mesurau diogelwch priodol i atal y data personol rhag cael ei beryglu yn ddamweiniol neu'n fwriadol.<br>Mae cofnodi gwybodaeth am nifer y digwyddiadau diogelwch data yn hanfodol. |
| *C3* | Hawliau Mynediad | Nifer y rhai sy'n gadael = **77**<br>nifer yr ymadawyr y mae eu hawliau mynediad wedi'u dirymu dim hwyrach na'r diwrnod gwaith olaf fel % (Mynediad corfforol a TGCh) = **100%** | Mae'n hanfodol bod hawliau mynediad pob aelod o staff sy'n gadael yr awdurdod yn cael eu dirymu heb fod yn hwyrach na'r diwrnod gwaith olaf. |
| *C4* | Cwblhau Asesiadau o’r Effaith ar Breifatrwydd | Nifer y prosiectau newydd lle mae angen AEB<br>nifer yr AEB a gwblhawyd fel% =<br><br>**Dim wedi eu hadrodd** | Mae Methodoleg Rheoli Prosiectau'r Cyngor yn mynnu bod AEB yn cael eu cynnal pryd bynnag y bydd prosiect newydd yn cael ei ystyried - gweler y Templed Achos Busnes Arfaethedig.<br>http://monitor.ynysmon.gov.uk/adnodd-corfforaethol/rheoli-rhaglenni-a-phrosiectau-/templedi-i-ddogfennaeth-rhaglen-prosiect-a-thasg?redirect=false |
| *C5* | Cydymffurfio â Hysbysiadau Preifatrwydd | Nifer yr Hysbysiadau Preifatrwydd a gwblhawyd =<br>nifer yr Hysbysiadau Preifatrwydd a gopïwyd i’r CIO | Mae angen hysbysiadau preifatrwydd yn ôl y gyfraith fel rhan o brosesu teg. Mae gan bobl yr hawl i wybod pam fod eu gwybodaeth bersonol yn cael ei chasglu, ei defnyddio a'i rhannu |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | fel%<br>**Dim wedi eu hadrodd** | |

Mae gwybodaeth am y nifer y cwynion dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yr ymchwiliwyd iddynt gan y Comisiynydd Gwybodaeth yn cael ei darparu yn **Atodiad B.** Yn ychwanegol at hyn, mae'r Cyngor yn cynnal, ar gais achwynwyr, Adolygiadau Mewnol o'i ymatebion dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth; mae'r wybodaeth hon hefyd yn cael ei darparu yn **Atodiad B.**

Mae'r Cyngor hefyd yn ymchwilio i gwynion a gaiff ynghylch materion diogelu data; mae rhagor o wybodaeth yn **Atodiad C.**

Mae mynediad gwrthrych, sef yr hawl sylfaenol o dan Ddeddf Diogelu Data 1998 i gael gafael ar eu gwybodaeth bersonol eu hunain, yn elfen bwysig o LlG. Mae Ceisiadau Mynediad Gwrthrych (CMG) yn aml yn gymhleth ac yn ddwys o ran y defnydd o adnoddau. Ceir gwybodaeth am y nifer o Geisiadau Gwrthrych a chydymffurfiaeth y Cyngor yn **Atodiad D. Mae'r mwyafrif o CMG yn cael eu derbyn gan y Gwasanaethau Cymdeithasol ac maent yn gymhleth i'w prosesu.** Er bod Gwasanaethau Cymdeithasol, o ganlyniad i gymhlethdod y ceisiadau, weithiau'n cael trafferth i fodloni'r terfyn amser statudol o dan Ddeddf 1998, mae'r ddeddfwriaeth newydd yn darparu ar gyfer estyniad amser o ran cydymffurfiaeth yn achos ceisiadau cymhleth.

## 6. Goruchwyliaeth Reoleiddiol

Mae nifer o reoleiddwyr â throsolwg o agweddau sy'n ymwneud a LlG sy'n adlewyrchiad o'r ddeddfwriaeth a'r codau ymarfer sy'n ymwneud â hi. Mae'n ofynnol i'r Cyngor adrodd yn rheolaidd i'r rheoleiddwyr ar nifer o faterion ac ar nifer o faterion penodol ar sail ad hoc lle mae angen gwneud hynny.

### 6.1 Comisiynydd Gwybodaeth

Y Comisiynydd Gwybodaeth sy'n gyfrifol am orfodi a hyrwyddo cydymffurfiaeth â Deddf Diogelu Data 1998 (DDD) a Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 2018 a'r GDPR yn ddiweddarach; Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000; y Rheoliadau Preifatrwydd a Chyfathrebu Electronig; y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol; Rheoliadau Ailddefnyddio Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus; Rheoliadau INSPIRE. Mae gan y Comisiynydd Gwybodaeth bŵer i asesu prosesu data personol unrhyw sefydliad yn erbyn y safonau 'arfer dda' cyfredol.

### 6.2 Swyddfa’r Comisiynwyr Arwylio a Swyddfa’r Comisiynydd Pwerau Ymchwiliol

Mae Swyddfa’r Comisiynwyr Arwylio (SCA) (hyd at 31 Awst 2017) ac wedi hynny Swyddfa’r Comisiynwyr Pwerau Ymchwiliol yn goruchwylio gwyliadwriaeth gudd a ffynonellau cudd-wybodaeth ddynol gan awdurdodau cyhoeddus yn unol â Deddf yr Heddlu 1997 a Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 (RIPA). Nod y drefn RIPA yw sicrhau bod gwyliadwriaeth yn digwydd mewn ffordd sy'n cydymffurfio â hawliau dynol. Cyflawnir hyn trwy system hunanawdurdodi gan uwch swyddogion sy'n gorfod bod yn fodlon bod y wyliadwriaeth yn angenrheidiol ac yn gymesur; rhaid i’r farnwriaeth gymeradwyo'r hunanawdurdodi wedyn.

Arolygwyd prosesau ac ymarferwyr y Cyngor gan yr SCA yn ystod Awst 2015 a chafwyd eu bod yn foddhaol. Canmolodd yr SCA weithdrefn y Cyngor sy'n sicrhau nad yw ei swyddogion awdurdodi wedi'u lleoli yn y gwasanaeth sy'n gwneud cais am awdurdodiad. Argymhellodd hefyd y dylid gwneud mân newidiadau i Bolisi'r Cyngor ac fe wnaed y newidiadau hynny yn syth ar ôl derbyn yr argymhelliad.

Ni ddefnyddiwyd RIPA o gwbl gan y Cyngor yn ystod y cyfnod perthnasol.

### 6.3 Swyddfa’r Comisiynydd Camerâu Gwyliadwriaeth

Mae Swyddfa’r Comisiynydd Camerâu Gwyliadwriaeth yn goruchwylio cydymffurfiaeth â'r côd ymarfer ar gyfer camerâu gwyliadwriaetho. Crëwyd swyddfa'r Comisiynydd dan Ddeddf Gwarchod Rhyddid 2012 er mwyn rheoleiddio camerâu goruchwylio ymhellach. Cwblhaodd y Cyngor becyn cymorth hunanasesiad ym mis Rhagfyr 2015. Datblygwyd polisi Camerâu Gwyliadwraeth yn Ionawr 2018 ond nid yw wedi cael ei weithredu oherwydd bod gweithredu GDPR wedi cymryd cymaint o gapasiti.

## 7. Casgliadau

Mae'r SIRO o'r farn bod yna dystiolaeth ddogfennol sylweddol i ddangos:

- bod trefniadau'r Cyngor ar gyfer cydymffurfiaeth LlG a diogelu data yn rhesymol effeithiol;
- bod y Cyngor wedi bodloni'r her o weithredu'r ddeddfwriaeth newydd ar ddiogelu data yn llwyddiannus ac mae'n gweithredu mewn modd sy’n cydymffurfio;
- mae gan y Cyngor brosesau ar waith i ddangos cydymffurfiaeth i'r ICO ac mae'n cydymffurfio ag egwyddor atebolrwydd y GDPR;
- Mae diogelu data yn parhau i fod yn risg ganolig i'r Cyngor, ac mae'n debygol o barhau felly, a hynny oherwydd sensitifrwydd y data personol y mae'n ei brosesu, sy'n amrywio rhwng y Gwasanaethau

**Atodiad A**

**Nifer y digwyddiadau a gofnodwyd gan y Cyngor yn ystod y cyfnod 2017-2018**

**Digwyddiadau diogelwch data (17/18): 20 digwyddiad**

Lefel 0 - Lefel 1 (digwyddiad trwch blewyn dim neu ddigwyddiad diogelwch data ond **dim** angen adrodd arno i'r SCG a rheoleiddwyr eraill
= **19 digwyddiad**

Digwyddiadau Lefel 2 (digwyddiad diogelwch data y **mae'n rhaid** adrodd arno i'r SCG a rheoleiddwyr eraill (fel y bo'n briodol).

**= 1 digwyddiad**

| **Lefel Categori 0 -1** | **Rhif** | **Manylion** |
|---|---|---|
| Datgelwyd mewn camgymeriad | 12 | 5 x negeseuon e-bost wedi'u hanfon gan ddefnyddio'r cyfleuster awto-gwblhau<br>5 x llythyr wedi'u hanfon i gyfeiriadau anghywir<br>2 x fersiwn anghywir o ffurflen wedi eu cyhoeddi ar y rhyngrwyd |
| Data / caledwedd wedi mynd ar goll | 1 | data yn cael ei roi ym mlwch y Pencadlys ond heb ei dderbyn gan y Gwasanaeth |
| Gwaredu'n ddiogel | 1 | data wedi ei adael mewn drôr dan glo mewn cabinet mewn adeilad a oedd yn cael ei werthu gan y Cyngor |
| Arall | 5 | 2 x bost wedi'i anfon at swyddog heb gynnwys y Gwasanaeth yn y cyfeiriad ac wedi'i dderbyn gan y swyddog anghywir<br>2 x llythyr mewnol a anfonwyd at y Gwasanaethau Cymdeithasol heb ei farcio'n swyddogol sensitif<br>1 x mater yn ymwneud â chyfryngau cymdeithasol |
| **Categori 2** | **Rhif** | **Manylion** |
| Arall | 1 | Gweithiwr dros dro wedi e-bostio gwaith i'w gyfrifiadur adref - Caeodd yr SCG yr achos yn dilyn ystyriaeth gychwynnol gan fod y Cyngor wedi cymryd camau priodol |

**Atodiad B**

**Nifer yr Adolygiadau Mewnol mewn perthynas â’r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a gynhaliwyd yn ystod 2017- 2018 a nifer y cwynion i'r SCG a broseswyd gan y Cyngor yn ystod y cyfnod.**

Proses tri cham: -

**Cam 1** : Derbyn ac ymateb i geisiadau Rhyddid Gwybodaeth.

**Cam 2** : Adolygiad Mewnol - os yw’r sawl sydd wedi cyflwyno cais yn anhapus gyda'r ymateb gwreiddiol, gallent ofyn am Adolygiad Mewnol (apêl) ac mae’n rhaid i Reolwr Llywodraethu Gwybodaeth Gorfforaethol y Cyngor ei gynnal.

**Cam 3** : Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) - os yw'r ymateb gwreiddiol wedi'i gadarnhau yn ystod y cam Adolygiad Mewnol, yna gallant fynd â'r mater i'r ICO a fydd yn asesu p'un ai i ymchwilio ai peidio.

| **Ceisiadau dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth am Adolygiad Mewnol (17/18)** |
|---|
| Yn 2017/18, derbyniodd / ymatebodd y Cyngor i 7527 o gwestiynau dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.<br><br>O'r rhain dim ond 5 arweiniodd at geisiadau am Adolygiad Mewnol ac ym mhob achos, cadarnhawyd yr ymatebion gwreiddiol yn yr Adolygiad Mewnol. |

| **Apeliadau dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth i'r SCG (17/18)** |
|---|
| Cyflwynwyd 3 apêl i’r ICO yn ystod y cyfnod hwn.<br><br>1 - o ganlyniad i anfodlonrwydd gyda'r Adolygiad Mewnol ond fe gadarnhawyd penderfyniad gwreiddiol y Cyngor a’r Adolygiad Mewnol gan yr ICO.<br><br>1 - ni chafwyd ymateb i'r cais gwreiddiol o fewn yr amserlen ofynnol ac fe’i cyflwynwyd i’r ICO. Yna cafodd y Cyngor 10 diwrnod gwaith i ymateb ac fe wnaed hynny.<br><br>1 - apêl yn erbyn gwrthodiad - wedi'i dynnu'n ôl gan yr achwynydd |

**Atodiad C**

**Gwybodaeth am nifer y cwynion diogelu data a gyflwynwyd i'r Cyngor yn ystod 2017 - 2018 gan unigolion ynghylch prosesu eu gwybodaeth bersonol.**

| **Cwynion i'r Cyngor dan y Ddeddf Diogelu Data(17/18)** |
| --- |
| Cyflwynwyd 2 gŵyn dan y Ddeddf Diogelu Data ac ymchwiliwyd iddynt:<br><br>Roedd 1 yn ymwneud â datgelu cyfeiriad e-bost yn anfwriadol - esboniad ac ymddiheuriad a hysbysu am yr hawl i apelio. Dim mwy o wybodaeth.<br><br>1 yn ymwneud â datganiadau a ddarparwyd mewn perthynas â achos llys sifil - heb ei gadarnhau ond hysbyswyd yr achwynydd am yr hawl i apelio. Dim mwy o wybodaeth. |

**Atodiad D**

**Gwybodaeth am nifer y Ceisiadau Mynediad Gwrthrych dan y rheolau diogelu data a chydymffurfiaeth yn ystod 2017 - 2018.**

| **Ceisiadau Hawl Gwrthrych a Chydymffurfiaeth (17/18)** |
| --- |
| Derbyniwyd / ymatebwyd i 22 o’r ceisiadau hyn |
| Anfonwyd 91% o ymatebion o fewn yr amserlen ofynnol sef 40 diwrnod (20 o'r 22) |